**Dyddiad**/Date: 19 Chwefror 2024

**Rhif ffôn**/Telephone:029 20707633

**e-bost**/e-mail: school@stanwell.org

**Eich Cyf**/Your Ref: JM/NOL2023/16/11

GOREU ARF, ARF DYSG

# YSGOL STANWELL SCHOOL

Dysgu i Ragori

At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Stanwell.
Pennaeth a Staff Ysgol Stanwell; Ymgyngoreion Rhagnodedig.

Annwyl Ymgynghorai,

**Ymgynghoriad i newid Ysgol Stanwell o fod yn Ysgol Sefydledig i fod yn Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024**

Ymgynghorodd y Corff Llywodraethu ag ymgyngoreion rhagnodedig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i newid Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024. Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad gydag ymgyngoreion rhagnodedig rhwng 11 Medi 2023 a 23 Hydref 2023. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgyngoreion rhagnodedig am y cynnig i newid Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024. Derbyniwyd 106 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, gyda 56 yn cefnogi'r cynnig a 50 yn ei erbyn.

Ar 23 Tachwedd 2023, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y corff llywodraethu fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 9 Ionawr 2024 a'i ddosbarthu i ymgyngoreion rhagnodedig a'i arddangos hefyd ym mhrif fynedfeydd Ysgol Stanwell. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau bod cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a chael eu hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod pan gyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi ar 9 Ionawr 2024, roedd rhaid derbyn gwrthwynebiadau statudol erbyn dydd Mawrth 6 Chwefror 2024. Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

Ar 8 Chwefror 2024, fe wnaeth Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell gymeradwyo'r cynnig i newid Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024 ymlaen.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Corff Llywodraethu yn fodlon y bydd y cynnig i newid Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024 ymlaen yn:

- Cefnogi'r ysgol i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion, drwy gymorth arbenigol ychwanegol gan Gyngor Bro Morgannwg.

- Helpu i hwyluso rheolaeth ariannol well a chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddio a pholisi.
- Cefnogi cynaliadwyedd yr ysgol a chefnogi staff a llywodraethwyr i barhau â llwyddiannau dysgu ac addysgu'r ysgol fel yr adlewyrchir yn adroddiad diweddaraf Estyn.
- Hwyluso datblygu mwy o weithio mewn partneriaeth gyda Bro Morgannwg gyfan, yn ogystal â'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru.
- Caniatáu mynediad gwell at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro, cyllid a106 ac ati, drwy Raglen Gyfalaf y Cyngor.
- Galluogi Cyngor Bro Morgannwg i gefnogi'r ysgol gyda phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol a rheoli prosiectau adeiladu.
- Cefnogi'r ysgol i fynd i'r afael â heriau diweddar sy'n ymwneud â gweithdrefnau a rheolaeth ariannol.

## Ansawdd a Safonau Addysg

Yn ymateb Estyn i'r ymgynghoriad, daethant i'r casgliad ei bod yn debygol y bydd y cynnig i newid Ysgol Stanwell o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y gymuned o fis Medi 2024 i gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

Dywedodd Estyn nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar safonau addysg neu ddarpariaeth. Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y cwricwlwm na disgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Ni fyddai newid statws yn amharu ar addysg dysgwyr mewn unrhyw ffordd.

Mae dwy ffordd y gallai'r cynnig fod o fudd i safonau a darpariaeth, er na ellir sicrhau'r rhain ymlaen llaw. Yn gyntaf, mae'r ysgol yn disgwyl gweithio'n agosach gydag ysgolion awdurdodau lleol eraill os yw'r cynnig yn mynd rhagddo a gallai hyn fod o fudd i staff. Yn ail, os yw'r ysgol ar sylfaen ariannol well o ganlyniad i'r cynnig, mae gan hyn fanteision posibl ar gyfer cyfleusterau ac adnoddau, a allai, yn ei dro, gael effaith gadarnhaol ar safonau.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae manteision posibl hefyd o ran sicrwydd cynharach o leoedd ysgol, gwell cydweithio ag ysgolion eraill a mwy o ddefnydd o gyfleusterau ysgol gan y gymuned. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i Ysgol Stanwell a'i staff ar drosglwyddo prosesau derbyn a threfniadau pontio.

Nid yw nodweddion gwarchodedig unrhyw un o ddisgyblion y dyfodol yn hysbys. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu y byddai angen addasiad rhesymol ar gyfer unrhyw ddisgybl o ganlyniad i'r cynnig hwn, ond anogir rhieni i drafod unrhyw anghenion gyda'r ysgol a'r Cyngor, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn ystod y cyfnod pontio.

Byddai'n rhaid i unrhyw ddisgybl sy'n gwneud cais i Ysgol Stanwell ar ôl Medi 2024 wneud cais drwy weithdrefnau derbyn y Cyngor, er y bydd y meini prawf derbyn presennol yn berthnasol tan 2030 pan fyddai'r system ysgolion bwydo yn cael ei dileu'n llawn. Ni chynigir unrhyw newidiadau i ddalgylchoedd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Bro Morgannwg i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Ni fydd y cynnig hwn yn darparu unrhyw newidiadau ac felly ni fydd unrhyw effaith ar drafnidiaeth i ddisgyblion.

## Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Byddai’r newid mewn statws yn golygu y byddai Stanwell yn elwa o gymorth ariannol a chaffael arbenigol ychwanegol, gyda mynediad gwell at arbenigedd arbenigol gan Gyngor Bro Morgannwg. Byddai'r ysgol hefyd yn elwa ar gymorth gyda llif arian parod, caffael a mynediad at gronfeydd Adran 106 ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Fel ysgol gymunedol, byddai cyfrifoldeb am adeiladau Stanwell yn trosglwyddo i'r cyngor ac o ganlyniad, byddai gwaith cyfalaf a nodwyd drwy arolygon cyflwr yn cael ei flaenoriaethu a'i gynnal o raglen cyllid cyfalaf ac adnewyddu asedau’r cyngor.  Byddai hyn yn helpu i leddfu rhywfaint o bwysau ariannol a sefydliadol gan mai Cyngor Bro Morgannwg fyddai'n gyfrifol amdanynt.


**Ffactorau cyffredinol eraill**

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y byddai effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig o ran yr iaith Gymraeg. Byddai'r cynnig yn cefnogi'r ysgol gan y bydd ganddi gefnogaeth uniongyrchol gan y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol yn gyffredinol.

Byddai’r cynnig yn cefnogi’r ysgol i sicrhau ei bod yn hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng y rhai â nodweddion gwarchodedig gwahanol.  Ni welwyd unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig a nodwyd. Byddai gweithredu'r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfio drwy ddarparu ysgol sydd â pherthynas waith gref gyda'r awdurdod lleol ac ysgolion eraill ym Mro Morgannwg.

Mae’r asesiad effaith ar y Gymuned yn nodi y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 7 o’r 8 mesur a aseswyd.  Byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 1 o’r 8 mesur a aseswyd.  Yn gyffredinol, byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

**Yn gywir,**



Mr T Rogers
Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Stanwell

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg**/Correspondence is welcomed in Welsh or English